**PWYLLGOR SAFONAU 09-06-08**

**YN BRESENNOL: AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr Gwilym Ellis Evans Mr Malcolm Jones, Mr John Pollard, Mr Sam Soysa.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor)

1. **AELODAETH:** Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi penderfynu ail ethol Mr John Pollard a Mr Malcolm Jones i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau am dymor pellach. Diolchodd y Swyddog Monitro iddynt am eu parodrwydd i wneud y gwaith.

2. **CADEIRYDD:** Penderfynwyd ethol Mr John Pollard yn Gadeirydd am y tymor nesaf fydd yn ymestyn am gyfnod o bedair blynedd**.** Diolchodd am yr anrhydedd.

3. **COFNODION**

   Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2008 fel rhai cywir.

4. **MATERION YN CODI**

   Cadarnhawyd bod y Cyngor wedi mabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd ynghyd â'r diwygiadau a argymhellwyd gan y Pwyllgor Safonau.

   **PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

5. **CEISIADAU AM OLLYNGIAD – Mewn Perthynas â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.**

   Adroddodd y Swyddog Monitro fod 5 cais wedi eu derbyn yn gysylltiedig â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion, sef rhai gan Y Cynghorwyr Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Dyfrig Jones, Pat Larsen a Sian Gwenllian.

   Nodwyd bod caniatâd wedi ei roi i geisiadau tebyg yn y gorffennol, gan gynnwys dau o'r rhain. Penderfynodd y cynghorwyr ail gyflwyno'r ddau gais oherwydd bod Cod Ymddygiad newydd bellach wedi ei fabwysiadu. Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriodd y Swyddog Monitro at anawsterau cyfreithiol a allasai godi pe byddai'r ceisiadau yma am ollyngiad yn cael eu gwrthod o gofio eu bod wedi eu caniatáu yn y gorffennol.

   Cyflwynwyd esboniad llawn ar y sefyllfaoedd a'r materion i'w hystyried gyda'r 5 cais. Ychwanegwyd fod newidiadau a gyflwynwyd o fewn y Cod Ymddygiad newydd yn golygu nad oes dim yn amharu ar hawliau Llywodraethwyr ysgolion o safbwynt trafodaethau na phleidleisio.

   Eglurwyd ymhellach mai'r Cyngor llawn fydd yn cymryd penderfyniad ar Drefniadaeth Ysgolion, a phan wnaed cyfrif ddiwethaf, cyn etholiadau mis Mai, 'roedd 42 o'r aelodau gyda pherthynas, neu berthnasau, yn gweithio yn yr ysgolion neu gyda pherthnasau yn ddisgyblion yn mynychu'r ysgolion.

   Cytunwyd y byddai gosod canllawiau i'w dilyn wrth ystyried ceisiadau yn gysylltiedig â'r Cynllun Trefniadaeth Ysgolion o gymorth i ystyried pob cais ar ei haeddiant ac i fod yn gyson wrth wneud penderfyniadau.

Yn sgil hyn, penderfynwyd y byddai gŵr neu wraig, plant, brawd neu chwaer yn creu cysylltiadau rhy agos i ganiatáu gollyngiad o safbwynt ysgolion penodol oherwydd y byddai'n anodd i'r cyhoedd gael hyder yn y modd y gwneid y penderfyniadau.

Dilynwyd y canllawiau yma wrth ystyried pob cais yn unigol, ac o ystyried y sefyllfa yn gyffredinol eglurodd y Swyddog Monitro nad oedd lleoliad ysgol yn creu unrhyw anhawster. Mae hawl gan aelod felly i gymryd rhan mewn trafodaeth ac i bleidleisio ar fater yn gysylltiedig ag ysgol yn ei ward, os nad oes cysylltiad agosach yn bodoli.

**PENDERFYNWYD:**
**a) Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Pat Larsen dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar Y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol ysgolion penodol lle mae meibion y Cynghorydd Pat Larsen yn brifathrawon.**

**b) Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Dylan Edwards dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ddyfodol ysgolion penodol lle mae gwraig y Cynghorydd Edwards yn gweithio .**

**c) Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Elwyn Edwards, dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.**

**ch) Caniatáu gollyngiad i'r Cynghorydd Dyfrig Jones dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion.**

**d) Caniatáu gollyniad i'r Cynghorydd Sian Gwenllian dan baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar y Cynllun Trefniadaeth Ysgolion ac i gymryd rhan mewn trafodaeth a phleidleisio ar faterion ysgolion uwchradd ar yr amod nad yw'r gollyngiad yn ymestyn i drafodaethau ar ysgolion penodol lle mae ei phlant yn ddisgyblion.**

**CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD LIZ SAVILLE ROBERTS.**

Adroddwyd bod cais wedi ei dderbyn oddi wrth y Cynghorydd Liz Saville Roberts am ollynigad i siarad a phleidleisio ar faterion ynglyn ag addysg 14-16 oed. Gwnaed y cais am ei bod yn gweithio i sefydliad addysg bellach,(Coleg Meirion Dwyfor). Nodwyd yn y cais ei bod yn debygol y bydd Mesur/Llwybrau Dysgu 14-19 yn galw am gydweithio rhwng ysgolion a cholegau addysg bellach. Nodwyd ymhellach nad oedd y cynghorydd yn gofyn am ollyngiad mewn perthynas ag addysg ôl-16 ond ei bod yn dymuno cymryd rhan mewn trafodaethau addysg 14-16 oed fel un sy'n dal portffolio ysgolion ar Fwrdd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD caniatau gollyngiad i'r Cynghorydd Liz Saville Roberts dan**

**baragraffau 2(c), 2(ch) a 2(d) o Reoliadau'r Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau)(Cymru) 2001 i gymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar faterion yn ymwneud ag addysg 14-16 oed.**

**CAIS AM OLLYNGIAD GAN Y CYNGHORYDD SIAN GWENLLIAN**

Adroddwyd bod cais wedi ei dderbyn oddi wrth Y Cynghorydd Sian Gwenllian am ollyngiad i siarad a phleidleisio ar geisiadau cynllunio ym Mhwyllgor Ardal Arfon.

Gwnaed y cais am fod gan y Cynghorydd Gwenllian ffrind agos, sydd hefyd yn berthynas iddi, sy'n un o bartneriaid cwmni penseiri lleol. Nodwyd fod y cwmni'n gweithredu fel asiant i nifer o drigolion Arfon sy'n gwneud ceisiadau cynllunio.

'Roedd y Cynghorydd yn teimlo y byddai'n anodd iddi wneud ei gwaith yn effeithiol fel cynrychiolydd Ward Y Felinheli, lle mae'r cwmni'n gweithredu, pe na fyddai'n cael gollyngdod i siarad a phleidleisio.

Nododd y Swyddog Monitro nad yw asiant yn cael unrhyw fudd pan roddir hawl cynllunio. Ychwanegwyd y gallasai fod yn anodd i'r Cynghorydd ddarganfod pa asiant sy'n ymdrin â phob cais.

Mynegwyd pryder gan aelodau ynglŷn â'r sefyllfa, a nodwyd ganddynt y byddai angen i'r Cynghorydd ddarganfod os yw'r cwmni dan sylw yn gweithredu fel asiant ar unrhyw gais cynllunio i'w drafod mewn cyfarfod. Mynegwyd barn y gallasai asiant fod yn derbyn budd o waith ychwanegol pe rhoddid caniatad cynllunio ar gais. Pwysleisiwyd mai argraff a roddid i'r cyhoedd oedd yn bwysig ac y dylid sicrhau tryloywder yn y ndrefn gynllunio.

**PENDERFYNWYD gwrthod cais Y Cynghorydd Sian Gwenllian am ollyngiad.**

**7. AELODAU ETHOLEDIG**

Cadarnhaodd y Swyddog Monitro fod enw tri chynghorydd wedi eu cyflwyno i wasanaethu fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau, sef: Y Cynghorwyr Margaret Griffith, Stephen Churchman a Keith Greenly-Jones. Caiff argymhelliad i gadarnhau'r penodiadau ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 19 Mehefin.

Yn ogystal, gwahoddwyd holl gynghorau Cymuned y Sir i enwebu aelod i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau. Nodwyd mai dau enwebiad a dderbyniwyd, y naill o Bentir a'r llall o'r Bermo.

Eglurwyd fod meini prawf arbennig i'w dilyn wrth wneud y penodiadau ac mai'r Cyngor llawn fyddai'n cadarnhau unrhyw argymhelliad.

**PENDERFYNWYD y dylai panel o dri gyfweld y ddau gynghorydd cymunedol a enwebwyd cyn cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor llawn.**